**ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y DDYLETSWYDD PARTNERIAETH GYMDEITHASOL**

## 1. ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AWDURDOD

1.1. Nid yw'r Awdurdod wedi adolygu ei Amcanion Llesiant yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

1.2. Felly, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Ddyletswydd fel y'i nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25.

1.3. Mae'r Awdurdod wedi dechrau'r broses o adolygu *Cynllun Eryri*, ei Gynllun ar gyfer Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a fydd yn cael ei wneud yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.

1.4. Mae *Cynllun Eryri* yn nodi'r cyfeiriad y mae'r Awdurdod a'i bartneriaid yn dymuno i Barc Cenedlaethol Eryri ei ddatblygu dros y pum mlynedd nesaf. Drwy nodi'r Weledigaeth a'r Rhinweddau Arbennig ar gyfer Eryri a nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau allweddol y bartneriaeth, mae gan *Gynllun Eryri* rôl sylfaenol ym mhroses gynllunio corfforaethol strategol yr Awdurdod.

1.5. Yna bydd *Cynllun Eryri*, Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, yn bwydo'n uniongyrchol i ddatblygiad Datganiad Llesiant yr Awdurdod, sy'n cynnwys ein Hamcanion Llesiant a ffyrdd o weithio i wireddu'r Weledigaeth a chyflawni canlyniadau llwyddiannus. Bydd yr Amcanion Llesiant yn nodi ble byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau dros y blynyddoedd nesaf.

1.6. Oherwydd hyn, bwriad yr Awdurdod yw gohirio adolygiad o Amcanion Llesiant yr Awdurdod er mwyn sicrhau bod llinyn aur di-dor yn rhedeg rhwng *Cynllun Eryri* ac amcanion Llesiant yr Awdurdod.

1.7. Felly, rhagwelir y bydd y broses o adolygu Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn ffurfiol yn dechrau yn y flwyddyn ariannol 2026-27.

1.8. Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol â chynrychiolwyr undebau llafur bryd hynny.

## 2. YMGYNGHORIADAU

2.1. Trafododd a chytunodd y Cydweithgor Lleol ar y Cyd ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 14 Mawrth 2025.

2.2. Er nad yw'n ofyniad o'r Ddeddf gan fod yr Awdurdod wedi cydnabod cynrychiolaeth undebau llafur, trafododd a chytunodd Fforwm Staff yr Awdurdod hefyd ar gynnwys yr Adroddiad Blynyddol yn ei gyfarfod ar 28 Mai 2025.